

MORGAN, OWEN ('Morien '; 1836? - 1921), newyddiadurwr ac ysgrifennwr ar bynciau amrywiol

Enw: Owen Morgan
Ffugenw: Morien
Dyddiad geni: 1836?
Dyddiad marw: 1921
Rhiant: Margaret Morgan
Rhiant: Thomas T. Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr ac ysgrifennwr ar bynciau amrywiol
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Bu farw 16 Rhagfyr 1921 (*Western Mail*), ac ar yr achlysur hwnnw dywedwyd ei fod dros 80 oed a'i fod yn fab i Thomas T. Morgan a'i wraig, Margaret, o Ben-y-graig, Rhondda. Cuddiasai ei oedran yn gyson. Yng nghopi'r esgob o gofrestr plwyf Ystradyfodwg cofnodir bedyddio Owen, mab Thomas a Margaret Morgan o Dinas [Rhondda], 23 Chwefror 1836, ac ymddengys yn weddol sicr mai at wrthrych yr ysgrif hon y cyfeirir, oherwydd y mae Dinas yn ffinio ar Ben-y-graig. Honnai fod cysylltiad rhyngddo â theulu [Morgan](#) o Lantarnam, ac â theulu Thomas o Lanmihangel, Sir Forgannwg (gweler tan [EDWIN, TEULU](#)). Fel newyddiadurwr i'r *Western Mail* rhoddodd ei wasanaeth yn bennaf, o 1870 i 1899, pan ymddiswyddodd. Yn ei lyfrau, megis *Pabell Dovydd* (ar Dderwyddiaeth), *Kimmerian Discoveries* (ar wreiddiau Caldeaid y Kymry), *A Guide to the Gorsedd*, ac yn y blaen, adlewyrchir dylanwad ffugiadau [Iolo Morganwg](#), ac yn arbennig gysylltiad agos Morien ag [Evan Davies](#) (1801 - 1888), Myfyr Morganwg. Ar farwolaeth [Myfyr Morganwg](#), cymerodd Morien y teitl archdderwydd ' fel olynnydd iddo. Y mae ei *History of Pontypridd and the Rhondda Valleys* (Pontypridd, 1903), yn gymysgwch rhyfedd o 'dderwyddiaeth', chwedloniaeth, daearyddiaeth a hanes lleol, a bywgraffiadau, ond y mae iddo beth gwerth, oherwydd y wybodaeth a geir ynddo am ddatblygiad cymoedd y de yn y 19eg ganrif.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Who's who in Wales, arg. 1921

erthyglau yn *Y Geninen*, 1922, 100-103

gwymbodaeth gan Geidwad y Llyfrau Printiedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [49015645](#)

Wikidata: [Q16037844](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

